**Aled Roberts**
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner



Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Helen Mary Jones AS
Cadeirydd (Dros Dro) Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

10 Chwefror 2021

Annwyl Helen Mary Jones

**Ymchwiliad gwaddol gan Bwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu**

Diolch ichi am y cyfle i ymateb i'ch ymchwiliad ar waddol gwaith y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu. Rwyf yn ddiolchgar o gael y cyfle i gyfrannu at waith y Pwyllgor dros y cyfnod ers fy mhenodiad yn 2019 ac edrychaf ymlaen at barhau i wneud hynny, beth bynnag fydd ffurf a chylch gorchwyl y Pwyllgor yn ystod y Senedd nesaf. Cyfyngaf fy sylwadau i rai cyffredinol iawn am waith y Pwyllgor yn ystod y cyfnod 2016-21 gan ganolbwyntio yn bennaf ar yr hyn y credaf y mae angen ei gyflawni o safbwynt y Gymraeg yn y Senedd nesaf.

1. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru weledigaeth yn ei strategaeth Cymraeg 2050[1] yn ystod haf 2017. Erbyn dechrau'r Senedd nesaf bydd y Strategaeth wedi bod yn weithredol ers yn agos i bedair blynedd. Mae'r strategaeth yn cynnwys cerrig milltir i fesur llwyddiant ei chyflawniad, gyda'r garreg filltir gyntaf yn 2021 a'r nesaf yn 2026. Gwyddom fod y Pwyllgor wedi bod yn craffu ar weithrediad cyffredinol y Strategaeth ac ar waith nifer o fudiadau sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at ei gweithredu dros y blynyddoedd. Credwn fodd bynnag y bydd rhaid i'r Pwyllgor yn y cyfnod nesaf fwrw ati o ddifri i ddwyn y Llywodraeth i gyfrif am y graddau y mae'r Strategaeth yn cael ei chyflawni a'r cerrig milltir yn cael eu cyrraedd. Mewn gohebiaeth at y Pwyllgor ddechrau 2019 nodais nad oedd lefel y gwariant ar y Gymraeg bryd hynny yn cyd-fynd ag uchelgais Cymraeg 2050 a bod risg bod diffyg buddsoddi ychwanegol yn mynd i danseilio ymdrechion i gyflawni'r Strategaeth. Gan gydnabod wrth gwrs y bydd sgileffeithiau Covid-19 yn cyflwyno her ychwanegol i'r llywodraeth nesaf erys yr angen i herio'r llywodraeth nesaf ar gyflawniad Strategaeth 2050. Dylid gwneud hynny nid yn unig drwy graffu ar y data a'r ystadegau fydd yn dod yn sgil y Cyfrifiad ond hefyd drwy fynd o dan groen y data a'r adroddiadau i ddeall a yw amcanion y Strategaeth yn cael eu gwireddu ai peidio.

2. Yn gysylltiedig â'r uchod y mae pwysigrwydd prif ffrydio'r Gymraeg i ddeddfwriaeth a pholisi ehangach. Mae'n bryder gennyf nad oes digon o graffu ar effaith deddfwriaeth a pholisi sy'n effeithio ar y Gymraeg yn gyffredinol. Mae'r Pwyllgor wrth gwrs yn craffu ar waith cyrff sy'n

[1] Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr (llyw.cymru)

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.cymru

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner




gweithio er budd y Gymraeg yn uniongyrchol ond mae datblygu a chefnogi'r Gymraeg yn rhan o waith ehangach nifer o gyrff eraill. Dylid sicrhau bod dull o weithredu sy'n galluogi'r Pwyllgor hwn i graffu ar ddeddfwriaeth a pholisi ehangach sy'n effeithio ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg neu bod y Pwyllgorau eraill sy'n craffu ar feysydd polisi eraill yn gwneud hynny i raddau mwy na sy'n digwydd ar hyn o bryd. Un enghraifft yn unig o hyn yw'r Gymraeg yn y sector iechyd a gofal lle mae gwir angen craffu ar weithrediad strategaethau a deddfwriaeth yn y maes ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Flaenaf yn y maes iechyd a gofal fyddai'r graddau y mae *Mwy na geiriau* a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cael eu gweithredu o safbwynt y Gymraeg. Mae'r un peth yn wir am nifer o feysydd eraill megis llywodraeth leol, datblygu economaidd ac yn arbennig addysg wrth gwrs.

3. Yn gysylltiedig â'r uchod mae angen tanlinellu na ddylid ystyried y Gymraeg fel mater diwylliannol yn unig gan ei bod yn iaith fyw ym mhob un o gymunedau Cymru ac yn brif iaith yn nifer ohonynt. Mae'r cymunedau hynny yn wynebu nifer o heriau cymdeithasol ac economaidd sydd yn eu tro yn herio hyfywedd y Gymraeg yn y cymunedau hynny. Yn ddiweddar cynhaliodd y Pwyllgor ymchwiliad i effaith Covid ar y Gymraeg gan wahodd, fel y dylai, dystiolaeth gan nifer o gyrff oedd yn ymwneud â hyrwyddo'r Gymraeg. Byddai wedi bod yn ddefnyddiol o safbwynt ystyried effaith Covid ar y Gymraeg petai rhagor o ystyriaeth wedi cael ei rhoi i sgil effaith economaidd a chymdeithasol Covid ar gymunedau Cymraeg.

Yn ystod ei ymchwiliad i gynlluniau'r Llywodraeth i ddatblygu Bil y Gymraeg yn 2019, fe alwodd y Pwyllgor ar dystion ac arbenigwyr rhyngwladol, e.e. Comisiynydd Iaith Iwerddon ac academydd o'r Alban. Mae cael barn a chyd-destun o wledydd eraill sydd â ieithoedd lleiafrifol yn gallu bod yn ddefnyddiol wrth ystyried sefyllfa'r Gymraeg. Efallai bod profiad y Pwyllgor o weithio yn rhithiol a chynnal ei fusnes dros fideo dros y misoedd diwethaf yn hwyluso'r broses o gynnwys tystion rhyngwladol.

Rwyf wedi cyhoeddi dogfen maniffesto ar gyfer etholiad 2021[2] sy'n ategu fy sylwadau uchod bod angen ystyried amrediad eang o ffactorau sy'n effeithio ar y Gymraeg ac mai'r her i'r Llywodraeth nesaf fydd gweithredu'n radical er mwyn sicrhau ein bod ar y trywydd iawn i gyrraedd targedau 2050. Credaf fod gan y Pwyllgor rôl hollbwysig yn hynny o beth. Gobeithio y bydd y sylwadau hyn o ddefnydd ichi wrth ichi ystyried gwaith y Pwyllgor i'r dyfodol. Byddai croeso i swyddogion y Senedd drafod y materion hyn ymhellach gyda'm swyddogion os credwch y byddai hynny o fudd.

Yr eiddoch yn gywir,



Aled Roberts
**Comisiynydd y Gymraeg**

[2] Maniffesto (positif.wales)